**Eitem ar yr agenda: 11**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**Y PANEL GWEITHREDOL**

**25 GORFFENNAF 2005**

**TREFN LYWODRAETHU WELL I GYMRU**

Adroddiad gan y Clerc

**Diben yr Adroddiad**

1 Ystyried y Papur Gwyn ar y diwygiadau arfaethedig ar y setliad datganoli, ac a yw'r aelodau'n dymuno cyflwyno ymateb iddo.

**Cefndir**

2 Cyhoeddwyd "Trefn Lywodraethu Well i Gymru" ar 15 Mehefin. Gellir gweld testun y Papur Gwyn yn www.swyddfa.cymru.gov.uk/dangoseg.html. Y tri phrif gynnig yw:

2.1 pwerau deddfu ehangach i'r Cynulliad. Ar unwaith, bydd Mesurau'n cael eu llunio i roi pwerau fframwaith i'r Cynulliad i'w alluogi i wneud ei ddarpariaethau ei hun o ran manylion deddfwriaethau. Bydd mecanwaith yn cael ei greu i awdurdodi'r Cynulliad i lunio deddfwriaeth sylfaenol mewn materion a meysydd penodol ac yn y pen draw, yn ddibynnol ar refferendwm, i gael pwerau deddfu llawn;
2.2 gwahanu'n ffurfiol y Cynulliad fel y corff craffu a Llywodraeth Cynulliad Cymru fel y weithrediaeth;
2.3 newidiadau i'r system etholiadol i rwystro ymgeiswyr rhag sefyll mewn etholiadau i etholaethau a rhanbarthau.

3 Er mai Papur Gwyn yw hwn, ac felly fel arfer byddai disgwyl i gynnwys y Mesur arfaethedig fod wedi ei setlo, gwahoddwyd sylwadau arno erbyn 16 Medi.

**Cyngor**

4 Nid oes dim cynigion a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae gan y Cynulliad eisoes bwerau eang i ymyrryd a chyfarwyddo dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ac fe allai ddeddfu i uno awdurdodau a phenodi rhai o'u haelodau. Gallai'r pwerau ehangach a ragwelir i'r Cynulliad ganiatáu iddo wneud newidiadau mwy sylweddol i rôl a natur y gwasanaeth tân ac achub (er bod hynny'n dechnegol bosib dan y system bresennol petai Llywodraeth

Prydain yn derbyn cais gan y Cynulliad i basio'r ddeddfwriaeth angenrheidiol yn San Steffan).

5 Mae cynnig y dylid diddymu'r gofyniad presennol fod y Cynulliad yn sefydlu ystod o bwyllgorau, ac eithrio'r gofyniad am bwyllgor archwilio (paragraff 2.16). Byddai hyn yn golygu na fyddai unrhyw ymrwymiad ar y Cynulliad i gael pwyllgor rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, ymhlith pethau eraill.

6 Mae'r Papur Gwyn yn diystyru'n bendant y posibilrwydd y byddai'r Cynulliad yn cael pwerau i wneud deddfwriaeth sylfaenol o ran yr heddlu (paragraff 3.26). Er na fyddai hyn yn rhwystro newid yn ddiweddarach, na datganoli'r cyfrifoldeb gweithredol am yr heddlu heb bwerau llawn i ddeddfu, efallai nad yw'r rhaniad presennol o ran cyfrifoldebau rhwng y Cynulliad a'r Swyddfa Gartref o ran y gwasanaethau brys a materion diogelwch cymunedol yn gymorth i'r cydweithrediad yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a ragwelir yn "Creu'r Cysylltiadau".

**Argymhelliad**

7 Bod y Panel yn ystyried y Papur Gwyn ac a yw'n dymuno cyflwyno ymateb iddo.